# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL
# Adroddiad Blynyddol i Aelodau Etholedig 2018
# Annual Report for Elected Members 2018

**Cynghorydd/ Councillor: Jayne Cowan, Adrian Robson ac Oliver Owen**

**Plaid/ Party: Y Blaid Geidwadol**

**Ward: Rhiwbeina**

**Etholwyd yn Gyntaf/ First Elected: 1999, 2004 a 2017 yn y drefn honno**

Mae'r adroddiad yn nodi fy mhrif weithgareddau dros flwyddyn ddinesig 2017/18 sy'n dod i ben 24 Mai 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim at unrhyw ddiben arall.

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

**Jayne:** Aelod Cabinet yr Wrthblaid Geidwadol dros Fuddsoddi a Datblygu Aelod y Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Amodau Cyflogaeth a Chadeirydd Cydbwyllgor Archifau Morgannwg 2017/18.

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Adrian:** Arweinydd y Grŵp Ceidwadwyr / Arweinydd yr wrthblaid. Aelod Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant, Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd a'r Pwyllgor Penodiadau ad hoc.

Aelod o Gydbwyllgor Archifau Morgannwg, Is-gadeirydd Bws Caerdydd ac arsyllwr Cabinet y Cyngor.

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Oliver:** Llefarydd y Ceidwadwyr dros yr Iaith Gymraeg. Aelod y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol a Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyieithog.

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth**

Rydym wedi bod yn brysur gyda gwaith achos. Un llwyddiant penodol oedd codi'r cyrbiau yn **Lon-y-Dail** lle rydym wedi gweld problemau parhaus am sawl blwyddyn. Ar y cyd â phreswylwyr, fe wnaethon ni wrthwynebu'r cais cynllunio ar gyfer banc Natwest gynt. Rydym hefyd yn parhau i ymgyrchu am gyfleusterau croesi llawn i gerddwyr yng nghyffordd 'Monica'

ac ail-ffurfweddu'r ffordd fel nad oes angen i draffig sy'n teithio tua'r de ar **Pantbach Road** fynd ar y cwrbyn.

Rydym yn parhau i ddelio â chasgliadau bin a gollir, coed sydd angen sylw ac atgyweiriadau ffyrdd sy'n effeithio ar y ward.

Mae cymorthfeydd cyngor wedi cael eu cynnal yn rheolaidd ar hyd a lled Rhiwbeina a Phantmawr ac mae ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol yn aml yn nodi'r diweddariadau lleol diweddaraf.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Cafodd Jayne ei hail-benodi fel Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Arbennig Greenhill, ac mae Oliver yn parhau fel llywodraethwr ysgol yn Ysgol Gynradd Ton Yr Ywen.

Ein gweithgaredd mwyaf yn 2017/18 oedd ein rhan yng nghynllun newid peipen nwy Wales & West Utilities. Mae'r holl beipiau nwy i'r gogledd o'r llinell reilffordd yn cael eu newid am rai newydd a disgwylir iddynt bara tua 100 mlynedd. Fe wnaeth y system un ffordd dros dro ar Pantmawr Road arwain at sawl ymholiad (a rhwystredigaeth i gymudwyr) ond roedden ni'n gallu rhoi'r diweddaraf i bobl trwy gael perthynas waith dda gyda Wales & West. Fe wnaethon ni eu gwadd i gyfarfod cyhoeddus yn y Pantmawr Inn a gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod preswylwyr yn gwybod sut y gallai effeithio arnynt.

Fe wnaethon ni hefyd gydgysylltu â siopau Rhiwbeina i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud ar ôl cyfnod prysur y Nadolig.

Yn ystod y cyfnod pan oedd Pantmawr Road ar gau roedd y tagfeydd yn ystod oriau brig yn mynd y tu hwnt i ffiniau Rhiwbeina, felly fe wnaethon ni ofyn i Wales & West sicrhau eu bod cydgysylltu â'r gymuned a gofyn i Gyngor Caerdydd edrych ar amseroedd goleuadau traffig wrth gyffyrdd prysur.

Uchafbwynt arall o'n blwyddyn oedd gweld Jayne ac Oliver yn cymryd rhan yng nghynhyrchiad dramatig Ffrindiau Tenovus Rhiwbeina o 'Out of the Wenallt' – Jayne fel cymeriad cynhenid ac Oliver fel cyfeilydd ar y piano, a helpodd i godi dros £3,000 ar gyfer yr elusen arbennig hon.

**Gweithgareddau / Materion Eraill**

Mae Oliver wedi eistedd ar Bwyllgor Codi Arian Eisteddfod Rhiwbeina a Llanisien, gan helpu i ariannu Eisteddfod 2018 yng Nghaerdydd. Mae gweithgareddau wedi amrywio o foreau coffi i noson blasu cwrw yn siop fwydydd Snails.

Cafwyd prynhawn llawn hwyl yng Nghlwb Hamdden Rhiwbeina ar Ddiwrnod Rachel er cof am Rachel a fu farw o fadredd. Roedd y digwyddiad yn cynnwys cerdded cŵn o amgylch Rhiwbeina, stondinau, bwyd a chantorion.

Ac un o uchafbwyntiau'r flwyddyn bob amser yw Diwrnod Gŵyl Rhiwbeina. Roedd yr awyrgylch yn wych ac fe wnaeth y defnydd o Barc y Pentre ychwanegu at yr atyniad. Gellir yn aml gweld Jayne, Adrian ac Oliver yn gwisgo festiau gwelededd uchel melyn, yn marsialu ar un o'r ffyrdd sydd wedi'u cau yn yr haul!

**Y Cynghorydd Jayne Cowan**
**Y Cynghorydd Oliver Owen**
**Y Cynghorydd Adrian Robson**